

Cyngor Gwynedd



Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

Cyn llenwi'r rhybudd hon, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd ar ddiwedd y rhybudd.

Dylech gadw copi o'r rhybudd a gwblhawyd ar gyfer eich cofnodion eich hun.

Byddwn yn anfon copi o'ch ffurflen ymlaen at brif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli.

Rwyf i, defnyddiwr bwriedig yr eiddo, drwy hyn yn rhoi rhybudd o dan adran 100 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 o'm cais i gynnal gweithgaredd dros dro yn yr eiddo a ddisgrifir isod.

1. Manylion personol defnyddiwr yr eiddo (Darllenwch nodyn 1)			
1. Eich enw			
Teitl	Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch)		
Cyfenw			
Enwau cyntaf			
2. Enwau blaenorol (Nodwch unrhyw fanylion ynghylch unrhyw enwau blaenorol neu enwau cyn priodi, os yn berthnasol. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.)			
Teitl	Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch)		
Cyfenw			
Enwau cyntaf			
3. Eich dyddiad geni		Diwrnod	Blwyddyn
4. Eich man geni			
5. Rhif Yswiriant Cenedlaethol			
6. Eich cyfeiriad presennol (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer gohebiaeth oni bai eich bod yn llenwi'r blwch gohebiaeth ar wahân isod)			
Tref Bost		Cod Post	
7. Manylion cyswllt eraill			
Rhif ffôn			
Yn ystod y dydd			
Gyda'r nos (opsiynol)			
Symudol (opsiynol)			
Rhif ffacs (opsiynol)			
Cyfeiriad e-bost (opsiynol)			

8. Cyfeiriad gwahanol ar gyfer gohebiaeth (Os ydych yn llenwi'r manylion isod, byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i ohebu â chi)	
Tref Bost	Cod Post
9. Manylion cyswllt gwahanol (os yw'n berthnasol)	
Rhif ffôn Yn ystod y dydd	
Gyda'r nos (opsiynol)	
Symudol (opsiynol)	
Rhif ffacs (opsiynol)	
Cyfeiriad e-bost (opsiynol)	
2. Yr eiddo	
Rhowch gyfeiriad yr eiddo ble'r ydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy, neu os nad oes ganddo gyfeiriad rhoddwch ddisgrifiad manwl (yn cynnwys y cyfeirnodau Arolwg Ordnans) (Darllenwch nodyn 2)	
A oes trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn weithredol ar yr eiddo (neu unrhyw ran o'r eiddo)? Os oes, rhowch rif y drwydded neu dystysgrif isod.	
Rhif Trwydded Eiddo	
Rhif Tystysgrif Eiddo Clwb	
Os ydych yn bwriadu defnyddio rhan o'r eiddo yn unig yn y cyfeiriad hwn neu'n bwriadu cyfyngu'r man ble bydd y rhybudd hwn yn weithredol, rhowch ddisgrifiad a manylion isod. (Darllenwch nodyn 3)	
Disgrifiwch natur yr eiddo isod. (Darllenwch nodyn 4)	
Disgrifiwch natur y digwyddiad isod. (Darllenwch nodyn 5)	

3. Y gweithgareddau trwyddedadwy		
Nodwch pa weithgareddau trwyddedadwy ydych chi'n bwriadu eu cynnal ar yr eiddo (ticiwch bob gweithgaredd trwyddedadwy yr ydych yn bwriadu cynnal). (Darllenwch nodyn 6)		
Gwerthu alcohol drwy adwerthu	<input type="checkbox"/>	
Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i aelod o'r clwb, neu yn ôl archeb aelod o'r clwb	<input type="checkbox"/>	
Darparu adloniant wedi ei reoleiddio	<input type="checkbox"/>	
Darparu lluniaeth yn hwyr y nos	<input type="checkbox"/>	
A ydych yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro hwyr? (Darllenwch nodyn 7)	<input type="checkbox"/>	
Nodwch y dyddiadau yr ydych yn bwriadu defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. (Darllenwch nodyn 8)		
Nodwch yr amseroedd yn ystod cyfnod y digwyddiad y bwriadwch gynnal gweithgareddau trwyddedadwy (rhowch yr amseroedd ar sail cloc 24 awr). (Darllenwch nodyn 9)		
Nodwch uchafswm nifer y bobl ar unrhyw amser penodol yr ydych yn bwriadu rhoi caniatâd iddynt fod yn bresennol ar yr eiddo yn ystod yr amseroedd pan rydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy, yn cynnwys unrhyw staff, trefnwyr neu berfformwyr. (Darllenwch nodyn 10)		
Os yw'r gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, nodwch a fydd yr alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed ar yr eiddo, oddi ar yr eiddo, neu'r ddau (ticiwch fel yn briodol). (Darllenwch nodyn 11)	Ar yr eiddo yn unig	<input type="checkbox"/>
	Oddi ar yr eiddo yn unig	<input type="checkbox"/>
	Y ddau	<input type="checkbox"/>
Nodwch os bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys darparu adloniant perthnasol. Os felly, nodwch yr amseroedd yn ystod cyfnod y digwyddiad y bwriadwch ddarparu adloniant perthnasol. (Darllenwch nodyn 12)		

4. Deiliaid trwydded bersonol (Darllenwch nodyn 13)		
A ydych yn dal trwydded bersonol ddilys ar hyn o bryd? (Ticiwch)	Ydw <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>
Os "Ydw" rhowch fanylion am eich trwydded bersonol isod.		
Awdurdod sy'n rhoi'r drwydded		
Rhif trwydded Dyddiad ei rhoi Dyddiad terfyn Unrhyw fanylion perthnasol pellach		

5. Hysbysebion dros dro blaenorol yr ydych wedi eu hoi. (Darllenwch nodyn 14 a thiciwch y blychau sy'n berthnasol i chi)		
A ydych wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro blaenorol yn achos unrhyw eiddo ar gyfer digwyddiadau sydd yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych yn awr yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>
Os ydych chi'n ateb 'do', nodwch nifer yr hysbysebion dros dro yr ydych wedi eu rhoi ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr.		
A ydych chi eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y cyfnod digwyddiad a gynigwyd yn y rhybudd hwn?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>

6. Cymdeithion a chydweithwyr busnes (Darllenwch nodyn 15 a thiciwch y blychau sy'n berthnasol i chi)		
Oes unrhyw gydymaith sydd gennych wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer digwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn ei gylch?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>
Os ydych chi'n ateb 'do', nodwch gyfanswm nifer yr hysbysebion dros dro y mae eich cydymaith/cymdeithion wedi eu rhoi yn yr un flwyddyn galendr.		
A oes unrhyw gydymaith i chi eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y cyfnod digwyddiad a gynigwyd yn y rhybudd hwn?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>
A oes unrhyw unigolyn yr ydych yn gwneud busnes â hwy mewn gweithgareddau trwyddedadwy wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro am ddigwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych chi yn awr yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn ei gylch?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>
Os ydych chi'n ateb 'do', nodwch nifer yr hysbysebion dros dro y mae eich cydweithiwr/wyr wedi eu rhoi ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr.		
A oes unrhyw unigolyn yr ydych yn gwneud busnes a hwy mewn gweithgareddau trwyddedadwy eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y cyfnod digwyddiad a gynigwyd yn y rhybudd hwn?	Do <input type="checkbox"/>	Na ddo <input type="checkbox"/>

7. Rhestr wirio (Darllenwch nodyn 16)	
Rwyf wedi: (Ticiwch y blychau priodol)	
Anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn i'r awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli	<input type="checkbox"/>
Anfon copi o'r rhybudd hwn at brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli	<input type="checkbox"/>
Anfon copi o'r rhybudd i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli	<input type="checkbox"/>
Os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn mwy nag un ardal awdurdod trwyddedu, anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn i bob awdurdod trwyddedu ychwanegol.	<input type="checkbox"/>
Os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn mwy nag un ardal heddlu, anfon copi o'r rhybudd hwn at bob prif swyddog heddlu ychwanegol.	<input type="checkbox"/>
Os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn mwy nag un awdurdod lleol, anfon copi o'r rhybudd hwn at bob awdurdod lleol ychwanegol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol.	<input type="checkbox"/>
Gwneud neu'n amgáu taliad o'r ffi am wneud y cais	<input type="checkbox"/>
Llofnodi'r datganiad yn Rhan 9 isod	<input type="checkbox"/>

8. Amod (Darllenwch nodyn 17)
Mae'n amod o'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn ble fo'r gweithgareddau perthnasol trwyddedadwy a ddisgrifir yn Rhan 3 uchod yn cynnwys cyflenwi alcohol, bod yr holl gyflenwadau o'r fath yn cael eu gwneud gan neu gyda chaniatâd defnyddiwr yr eiddo.

9. Datganiadau (Darllenwch nodyn 18)	
Mae'r wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.	
Rwyf yn deall ei bod yn drosedd:	
(i) gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll yng nghyswllt yr hysbyseb digwyddiad dros dro hwn, ac ar ei gael yn euog o'r fath drosedd, byddai unigolyn yn agored i ddirwy hyd at lefel 5 ar raddfa safonol; a	
(ii) caniatáu i weithgaredd sydd angen ei drwyddedu cael ei gynnal heb ganiatâd mewn unrhyw le ac ar ei gael yn euog o'r fath drosedd, byddai unigolyn yn agored i ddirwy sydd heb fod yn fwy na £20,000, neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis, neu'r ddau.	
Mae ticio'r blwch hwn yn dangos eich bod wedi darllen a deall y datganiad uchod	
Dyddiad	
Enw'r Unigolyn sy'n llofnodi	

I'w gwblhau gan yr awdurdod trwyddedu

10. Cydnabyddiaeth (Darllenwch nodyn 19)	
Mae ticio'r blwch hwn yn cydnabod bod y swyddog isod wedi derbyn y rhybudd digwyddiad dros dro hwn.	
Enw'r Swyddog (ar ran yr awdurdod trwyddedu)	
Dyddiad	

NODIADAU

Cyffredinol

Yn y nodiadau hyn, gelwir person sy'n rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn "defnyddiwr eiddo".

Gall yr heddlu a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol ymyrryd ar sail unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu (atal troseddu ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed) i atal digwyddiad lle bwriedir cynnal gweithgareddau dros dro a ganiateir neu i gytuno ar addasu'r trefniadau ar gyfer digwyddiad o'r fath. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymyrryd o'i wirfodd ei hun yn yr achosion a ddisgrifir isod.

Yn gyntaf, bydd yn rhoi gwrth-rhybudd os bydd gwrthwynebiad i rhybudd digwyddiad dros dro hwyr (gweler nodyn 7 isod).

Yn ail, gall roi rhybudd mewn perthynas â'i benderfyniad i osod amodau ar rhybudd digwyddiad dros dro (gweler nodyn 2 isod).

Yn drydydd, bydd yn rhoi gwrth-rhybudd os bydd y cyntaf, yr ail a'r pedwerydd cyfyngiad a nodir isod yn cael eu torri. Os bydd unrhyw un o'r cyfyngiadau isod yn cael eu torri neu os bydd gwrth-rhybudd wedi'i roi, ni fydd unrhyw weithgareddau trwyddedadwy wedi eu hawdurdodi a gallai'r defnyddiwr eiddo gael ei erlyn. Mae'r cyfyngiadau yn berthnasol i:

- y nifer o weithiau y gall unigolyn roi rhybudd digwyddiad dros dro (50 gwaith y flwyddyn i ddeiliaid trwydded bersonol a 5 gwaith y flwyddyn i bobl eraill);
- y nifer o weithiau y gall unigolyn roi rhybudd digwyddiad dros dro hwyr (10 gwaith y flwyddyn i ddeiliaid trwydded bersonol a 2 waith y flwyddyn i bobl eraill);
- y nifer o weithiau y gellir rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer unrhyw eiddo penodol (12 gwaith mewn blwyddyn galendr);
- hyd yr amser y gall digwyddiad dros dro barhau i'r amcanion hyn (168 awr neu 7 diwrnod);
- hyd mwyaf y cyfnodau cyfansymiol y mae'r rhybuddau digwyddiad dros dro ar unrhyw eiddo unigol yn berthnasol iddynt (21 diwrnod bob blwyddyn galendr); a
- maint y digwyddiad yn nhermau'r uchafwm o bobl sy'n mynychu ar unrhyw adeg (uchafswm o 499).

I amcanion pennu'r cyfyngiadau cyffredinol o 50 rhybudd digwyddiad dros dro fesul deiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr), a 5 i bobl eraill (mewn blwyddyn galendr), bydd rhybuddau digwyddiad dros dro a roddir gan gydymaith neu unigolyn sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys cynnal gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hynny. Mae'r cyfyngiadau sy'n gymwys i rhybuddau digwyddiad dros dro hwyr yn cael eu cynnwys o fewn y cyfyngiadau cyffredinol sy'n berthnasol i gyfanswm nifer o rhybuddau digwyddiad dros dro. Mae Nodyn 14 isod yn esbonio'r diffiniad o "gydymaith".

Pan fo digwyddiadau dros dro gyda chaniatad yn digwydd, mae'n rhaid i'r ddefnyddiwr eiddo sicrhau bod naill ai:

- copi o'r rhybudd digwyddiad dros dro yn cael ei arddangos mewn lle amlwg ar y safle; neu fod

- y rhybudd digwyddiad dros dro yn cael ei gadw ar yr eiddo naill ai dan ei feddiant ei hun neu ym meddiant unigolyn sy'n bresennol ac yn gweithio ar yr eiddo ac ymae wedi ei enwebu i'r pwrpas hwnnw.

Ble fo'r rhybudd digwyddiad dros dro ym meddiant unigolyn enwebedig, rhaid arddangos rhybudd yn amlwg ar yr eiddo, sy'n nodi'r ffaith hon a swydd yr unigolyn hwnnw.

Ble nad yw'r rhybudd digwyddiad dros dro neu rhybudd yn nodi'r unigolyn enwebedig yn cael ei arddangos, gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig (er enghraifft swyddog trwyddedu, swyddog tân neu swyddog iechyd amgylcheddol) ofyn i ddefnyddiwr yr eiddo ddangos y rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer ei archwilio. Yn yr un modd, ble fo'r unigolyn enwebedig gyda'r rhybudd digwyddiad dros dro yn ei feddiant, gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig ofyn i'r unigolyn hwnnw ei ddangos ar gyfer ei archwilio. Byddai methiant i ddangos y rhybudd digwyddiad dros dro heb esgus rhesymol yn drosedd.

Dylid nodi hefyd bod y canlynol, ymysg pethau eraill, yn droseddau o dan Ddeddf Drwyddedu 2003:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol i blant o dan 18 oed (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);
- caniatáu gwerthu alcohol i blant o dan 18 oed (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);
- caniatáu yn fwriadol i unigolyn o dan 18 oed yfed alcohol ar yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);
- caniatáu ymddygiad afreolus ar yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);
- gwerthu alcohol i unigolyn sy'n feddw (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000);
- cael alcohol ar gyfer unigolyn sy'n feddw (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000);
- caniatáu'n fwriadol i unigolyn o dan 18 oed werthu neu gyflenwi alcohol oni bai fod y gwerthiant neu'r cyflenwi wedi ei gymeradwyo'n benodol gan y defnyddiwr eiddo neu unrhyw unigolyn dros 18 oed sydd wedi ei awdurdodi ar gyfer y pwrpas hwn gan ddefnyddiwr yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 1 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £200); a
- mynd ati'n fwriadol i gadw neu i ganiatáu i'w cadw ar yr eiddo unrhyw nwyddau sydd wedi'u smyglo drwy eu mewnfario neg dalu treth arnynt neu sydd fel arall wedi eu mewnfario'n anghyfreithlon (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000).

Yn ogystal, os bwriedir defnyddio'r eiddo yn bennaf neu'n unig ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar yr eiddo, mae'n drosedd caniatáu i blant o dan 16 oed fod yn bresennol pan fo'r eiddo'n agored i'r pwrpas hwnnw oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn. Yn achos unrhyw eiddo ble mae alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi o gwbl, mae'n drosedd i blentyn dan 16 oed fod yn bresennol yno rhwng hanner nos a 5am oni bai ei fod gydag oedolyn. Yn y ddwy sefyllfa, mae'r ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000.

Nodyn 1

Dim ond unigolyn all roi rhybudd digwyddiad dros dro, ac nid, er enghraifft, sefydliad, glwb neu fusnes. Yr unigolyn sy'n rhoi'r rhybudd yw'r "defnyddiwr eiddo" bwriedig. O fewn busnesau, clybiau neu sefydliadau, bydd angen dynodi unigolyn fel defnyddiwr eiddo bwriedig.

Os ydych yn cynnwys cyfeiriad e-bost yn adran 1(7) neu 1(9), gall yr awdurdod trwyddedu ddefnyddio'r cyfeiriad i anfon cydnabyddiaeth ei fod wedi cael eich rhybudd neu unrhyw rhybudd neu wrth-rhybudd y mae'n ofynnol iddo ei wneud o dan adrannau 104A, 106A neu 107 Ddeddf Drwyddedu 2003.

Nodyn 2

I amcanion Deddf Drwyddedu 2003, mae "eiddo" yn golygu unrhyw le. Ni fydd eiddo felly bob amser yn adeilad gyda chyfeiriad ffurfiol a chod post. Gall eiddo gynnwys, er enghraifft, parciau cyhoeddus, tiroedd hamdden a thir preifat.

Os yw trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn weithredol ar yr eiddo (neu unrhyw ran o'r eiddo) yr ydych am ei ddefnyddio i gynnal digwyddiadau trwyddedadwy, mae'n bosibl y gallai unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r drwydded neu'r dystysgrif gael eu gosod ar y rhybudd digwyddiad dros dro os bodlonir rhag-amodau penodol. Y rhag-amodau hyn yw bod yr heddlu neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn gwrthwynebu'r rhybudd a bod yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu:

- peidio â rhoi gwrth-rhybudd o dan adran 105 o Ddeddf Drwyddedu 2003;
- bod yr amodau yn berthnasol i'r drwydded neu'r dystysgrif; a
- na fyddai gosod yr amodau ar y rhybudd yn anghyson â chynnal y gweithgareddau trwyddedadwy o dan y rhybudd hwn.

Nodyn 3

Gellir rhoi rhybudd digwyddiad dros dro i ran o adeilad, megis ystafell sengl neu lain o fewn maes mwy helaeth o dir. Dylech ddarparu disgrifiad clir o'r ardal yr ydych yn bwriadu cynnal y gweithgareddau trwyddedadwy arno. Mae hyn yn bwysig, gan y byddai cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy y tu allan i ardal yr eiddo a ddiogelir gan awdurdod y rhybudd digwyddiad dros dro hwn yn anghyfreithlon, a gallai arwain at erlyniad.

Hefyd, wrth gynnal y digwyddiad bwriedig, byddai angen i ddefnyddiwr yr eiddo allu cyfyngu ar nifer y bobl sydd ar yr eiddo ar unrhyw amser penodol i lai na 500 tra bod y gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd. Os bydd mwy na 499 ar yr eiddo tra bod y gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal, byddai'r gweithgareddau trwyddedadwy felly yn anghyfreithlon a byddai'r defnyddiwr eiddo'n agored i erlyniad. Mae'r ffigwr uchafswm o 499 yn cynnwys, er enghraifft, staff, trefnwyr, stiwardiaid a pherfformwyr.

Nodyn 4

Mae disgrifiad o natur yr eiddo o gymorth i brif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol wrth benderfynu os oes unrhyw faterion mewn perthynas ag amcanion trwyddedu yn debygol o godi. Dylech ddatgan yn glir bod yr eiddo sydd i'w ddefnyddio yn dŷ tafarn, bwyty, cae agored, neuadd bentref neu babell gwrw, er enghraifft.

Nodyn 5

Yn yr un modd, mae disgrifiad o natur y digwyddiad o gymorth i brif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol wrth wneud eu penderfyniad i wrthwynebu neu beidio. Dylech ddatgan yn glir os yw'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal ar yr eiddo yn briodas gyda bar talu, cyflenwi cwrw mewn marchnad ffermwyr penodol, yn ddisgotéc, perfformiad pedwarawd llinynnol, grŵp gwerin neu fand roc, er enghraifft.

Nodyn 6

Y gweithgareddau trwyddedadwy yw:

- gwerthu alcohol drwy adwerthu;
- cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar aceb, aelod o glwb;
- darparu adloniant wedi ei reoleiddio; a
- darparu lluniaeth yn hwyr y nos.

Cyfeiriwch at Atodlenni 1 a 2 o Deddf Drwyddedu 2003 am fanylion pellach o'r diffiniadau ac eithriadau sy'n gysylltiedig ag adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

Mae adloniant rheoledig, yn amodol ar amodau ac eithriadau penodol, yn cynnwys:

- (a) perfformiad o ddrama;
- (b) arddangos ffilm;
- (c) digwyddiad chwaraeon dan do;
- (d) adloniant paffio neu reslo;
- (e) perfformiad o gerddoriaeth fyw;
- (f) chwarae unrhyw gerddoriaeth a recordiwyd;
- (g) perfformiad o ddawns;
- (h) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r rhai sy'n dod o dan (e), (f) neu (g).

Os nad ydych yn sicr a yw'r gweithgareddau yr ydych yn eu cynnig yn drwyddedadwy, dylech gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu am gyngor pellach.

Nodyn 7

Gellir rhoi rhybudd hwyr dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith ond dim cynt na 9 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad y mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef. Bydd rhybudd hwyr a gaiff ei roi'n hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad y mae'n ymwneud ag ef yn cael ei ddychwelyd yn annilys ac ni fydd y gweithgareddau a ddisgrifir ynddo wedi eu hawdurdodi.

Mae'r nifer o weithiau y gall unigolyn roi rhybudd digwyddiad dros dro hwyr mewn un flwyddyn galendr wedi ei gyfyngu i 10 gwaith y flwyddyn i ddeiliaid trwydded bersonol a 2 waith y flwyddyn i bobl eraill. Mae'r rhain yn cyfrif tuag at gyfanswm rhybuddau digwyddiad dros dro (h.y. 50 rhybudd digwyddiad dros dro'r flwyddyn ar gyfer deiliaid trwydded bersonol a 5 rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer bobl eraill).

Os bydd gwrthwynebiad gan naill ai'r heddlu neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol, ni fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal a rhoddir gwrth-rhybudd.

Nodyn 8

Y cyfnod hiraf y gellir defnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy o dan ganiatad rhybudd digwyddiad dros dro yw 168 awr neu saith diwrnod.

Nodyn 9

Dylech ddatgan yma'r amseroedd yn ystod cyfnod y digwyddiad, er enghraifft 48 awr, pan rydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy. Er enghraifft, efallai nad ydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy drwy gydol cyfnod 48 awr y digwyddiad, ac efallai'n bwriadu gwerthu alcohol rhwng 8.00 a 23.00 ar y ddau ddiwrnod.

Nodyn 10

Ni chaniateir i fwy na 499 fod ar yr eiddo ar gyfer digwyddiad dros dro ar unrhyw adeg pan fo gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal. Os ydych yn bwriadu i fwy na 499 fynychu'r digwyddiad, dylech gael trwydded eiddo ar gyfer y digwyddiad. Dylai eich awdurdod trwyddedu allu

eich cyngori ynghylch hyn. Nid y gynulleidfa, gwylwyr neu gwsmeriaid yn unig sy'n cael eu cynnwys o fewn y ffigwr uchafswm o 499, mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, y staff, trefnwyr, stiwardiaid a'r perfformwyr sydd hefyd yn bresennol ar yr eiddo.

Nodyn 11

Os ydych yn nodi mai dim ond ar yr eiddo bydd alcohol yn cael ei yfed, byddai angen i chi sicrhau nad oes unrhyw un yn gadael yr eiddo gydag alcohol a gyflenwyd yno. Os yw cyflenwi o'r fath yn digwydd, mae'n bosibl y bydd y defnyddiwr eiddo yn agored i'w erlyn am gynnal gweithgaredd trwyddedadwy na chafodd ei ganiatáu. Yn yr un modd, os yw'r defnyddiwr eiddo'n yn rhoi rhybudd mai ond oddi ar yr eiddo y bydd yr alcohol a gyflenwir yn cael ei yfed, rhaid iddo ef/hi sicrhau nad yw'r alcohol a gyflenwyd yn cael ei yfed ar yr eiddo. Mae gan y defnyddiwr eiddo hawl i roi rhybudd ei fod ef/hi yn bwriadu cynnal y ddau fath o gyflenwad. I'r pwrpas hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy cyntaf a restrir yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 12

Mae adloniant perthnasol yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") fel *unrhyw berfformiad byw neu unrhyw arddangosiad byw o noethni sydd o'r fath natur, gan anwybyddu elw ariannol, y mae'n rhaid iddo fod yn rhesymol cymryd yn ganiataol y darperir yn unig neu'n bennaf ar gyfer y diben o ysgogi unrhyw aelod o'r gynulleidfa yn rhywiol (p'un ai drwy ddulliau llafar neu arall)*. Mae adloniant perthnasol felly yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, dawnsio glin a dawnsio polyn.

Mae Deddf 1982 yn mynnu rhaid pob eiddo sy'n darparu adloniant perthnasol fod yn trwyddedig dan y Ddeddf honno at y diben hwn. Mae eiddo lle nad oes fwy nag un ar ddeg achlysur o adloniant o'r fath wedi cael ei ddarparu o fewn cyfnod o 12 mis, nid oes unrhyw achlysur o'r fath wedi para am fwy na 24 awr ac mae wedi bod yn gyfnod o fis o leiaf rhwng pob achlysur o'r fath wedi eu heithrio o'r gofyniad i gael trwydded o dan Ddeddf 1982. Yn lle hynny mae eiddo o'r fath yn debygol o fod angen awdurdodiad o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 er mwyn cael ei ddefnyddio ar gyfer math gweithgareddau oherwydd mae'n weithgaredd trwyddedadwy (darparu adloniant wedi'i reoleiddio - gweler nodyn 6 uchod). Gall rhybudd o ddigwyddiad dros dro yn cael ei roi at y diben hwn.

Nodyn 13

Gall deiliad trwydded bersonol ddilys a roddwyd o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 roi hyd at 50 rhybudd digwyddiad dros dro mewn unrhyw flwyddyn galendr yn amodol ar y cyfyngiadau eraill yn Neddf 2003. Dylai'r defnyddiwr bwriedig sy'n dal y fath drwydded roi'r manylion y gofynnir amdanynt.

Nodyn 14

Fel y nodir dan Nodyn 13, gall deiliad trwydded bersonol (a roddwyd o dan Ddeddf Drwyddedu 2003) roi hyd at 50 rhybudd digwyddiad dros dro (gan gynnwys 10 rhybudd hwyr) mewn unrhyw flwyddyn galendr. Dim ond 5 rhybudd digwyddiad dros dro y gall unigolyn nad yw'n dal trwydded bersonol ddilys eu rhoi (gan gynnwys 2 rhybudd hwyr) yng Nghymru a Lloegr mewn unrhyw flwyddyn galendr. Cyfnod blwyddyn galendr yw rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr, yn gynnwysedig, mewn unrhyw flwyddyn.

Os yw digwyddiad yn pontio dwy flynedd galendr, bydd yn cyfrif yn erbyn y cyfyngiadau ar rhybuddau digwyddiad dros dro (12 i bob eiddo, 21 diwrnod i bob eiddo, 50 i ddeiliad trwydded bersonol a 5 i bobl eraill) am bob blwyddyn; fodd bynnag, dim ond un rhybudd sydd angen ei roi.

I amcanion pennu'r cyfyngiadau cyffredinol o 50 rhybudd digwyddiad dros dro fesul ddeiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr) a 5 i bobl eraill (mewn blwyddyn galendr), bydd rhybuddau digwyddiad dros dro a roddir gan gydymaith neu unigolyn sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys cynnal gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hyn. Mae Nodyn 15 isod yn diffinio "cydymaith".

Os oes rhybudd digwyddiad dros dro wedi ei roi ar gyfer yr un eiddo, gan yr un defnyddiwr safle, ac sy'n dod i rym o fewn 24 awr cyn dechrau cyfnod y digwyddiad o dan y cais presennol neu o fewn 24 awr ar ôl terfyn y cyfnod hwnnw, byddai'r rhybudd digwyddiad dros dro a roddwyd yn annilys a byddai unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a gynhaliwyd oddi tano felly'n ddirwydded.

I bwrpas pennu p'un ai a yw'r blwch angenrheidiol o 24 awr wedi ei gynnal, bydd rhybuddau digwyddiad dros dro a roddir gan gydymaith neu unigolyn sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys cynnal gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif fel petaent wedi eu rhoi gan y defnyddiwr eiddo ei hun. Mae Nodyn 15 isod yn diffinio "cydymaith".

Nodyn 15

"Cydymaith" defnyddiwr eiddo bwriedig yw:

- a. priod neu bartner sifil yr unigolyn hwnnw;
- b. plentyn, rhiant, wŷr/wyres, taid/nain, brawd neu chwaer yr unigolyn hwnnw;
- c. asiant neu unigolyn sy'n gyflogedig gan yr unigolyn hwnnw; neu
- d. priod neu bartner sifil unigolyn o fewn (b) neu (c).

I'r amcanion hyn, bydd unigolyn sy'n byw gydag unigolyn arall fel gŵr neu wraig yr unigolyn hwnnw yn cael ei drin fel priod yr unigolyn.

Nodyn 16

Mae'n ofynnol eich bod yn anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn i'r awdurdod trwyddedu o leiaf ddeng niwrnod gwaith (neu bum diwrnod gwaith ar gyfer rhybudd hwyr) cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy bwriedig. Bydd yr awdurdod yn rhoi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i chi ei fod wedi cael y rhybudd hwn. Bydd hyn yn dystiolaeth bwysig eich bod wedi rhoi'r rhybudd a phryd y rhoesoch y rhybudd i amcanion y Ddeddf. Gall rhai eiddo fod mewn dwy ardal awdurdod trwyddedu, er enghraifft, lle mae adeilad neu gae yn pontio ffin yr awdurdod lleol. Pan fo hynny'n digwydd, rhaid anfon o leiaf un copi o'r rhybudd i bob un o'r awdurdodau trwyddedu a ddynodwyd, ynghyd â'r ffi briodol ym mhob achos. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i chi gael cydnabyddiaethau gan yr holl awdurdodau trwyddedu perthnasol.

Rhaid anfon un copi at brif swyddog yr heddlu ac i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn ardal yr eiddo o leiaf ddeng niwrnod gwaith ar gyfer rhybudd safonol (neu bum diwrnod gwaith ar gyfer rhybudd hwyr) cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy bwriedig. Pan fo'r safle mewn dwy ardal heddlu neu ddwy ardal iechyd amgylcheddol, bydd angen anfon copi i'r awdurdod heddlu a'r awdurdod lleol ychwanegol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd amgylcheddol.

Nodyn 17

O dan Ddeddf Drwyddedu 2003, rhoddir pob rhybudd digwyddiad dros dro yn amodol ar amod gorfodol sy'n ei wneud yn ofynnol, mewn achosion lle bo'r gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, bod yr holl gyflenwadau o'r fath yn cael eu gwneud gan neu gyda chaniatâd y defnyddiwr eiddo a enwir. Os torrir yr amod hwn, bydd y defnyddiwr eiddo a'r unigolyn sy'n gwneud y cyflenwi dan sylw agored i'w herlyn. I'r pwrpas hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy cyntaf a restrir yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 18

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll yn y rhybudd digwyddiad dros dro, neu yng nghyswllt y rhybudd digwyddiad dros dro. (Ystyrir bod unigolyn yn gwneud datganiad ffug os yw'n cynhyrchu, rhoi, llofnodi neu'n gwneud defnydd arall o ddogfen sy'n cynnwys datganiad ffug.) Gallai gwneud hynny arwain at erlyniad a dirwy o hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol.

Nodyn 19

Ni ddylech lenwi adran 10 o'r rhybudd, sydd ar gyfer defnydd yr awdurdod trwyddedu. Gallai lenwi'r adran hon fod yn un ffordd o roi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i chi ei fod wedi cael y rhybudd.